**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**12 MEHEFIN 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mawrth, 12 Mehefin 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, David Evans, Veronica Gay, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, a Vicky Perfect

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Glyn Banks (ar ran Andy Dunbobbin) a Richard Lloyd (ar ran Paul Shotton)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Helen Brown, Rosetta Dolphin, Patrick Heesom, Christine Jones, Brian Lloyd, a David Wisinger (fel arsllwyr)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Dai; y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd
(Ar gyfer cofnod rhif 5) Mark Mountford, Rheolwr Busnes Rhanbarthol, ac Eoin Henney, Rheolwr Busnes, Kingdom Securities Limited.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Pwyllgor

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Annibynnol Newydd. Gan fod y Cynghorydd Ray Hughes wedi ei benodi i'r swydd hon gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau'r Cynghorydd Ray Hughes fel Cadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd David Hughes y Cynghorydd David Evans fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sean Bibby.

Ar ôl cynnal pleidlais penodwyd y Cynghorydd David Evans fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd David Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd dim.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. GORFODAETH AMGYLCHEDDOL YN SIR Y FFLINT

Cyflwynodd Carolyn Thomas adroddiad i ddarparu manylion i'r Pwyllgor am y gweithgareddau Gorfodaeth Amgylcheddol a wnaed gan Dîm Gorfodaeth y Cyngor a Kingdom Securities ar ran y Cyngor  Gwahoddodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedodd y Prif Swyddog fod yr adroddiad yn amlinellu'r dull o ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud â gorfodaeth amgylcheddol, gan gynnwys taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon, gwastraff ychwanegol a'r effaith mae'r gwaith yn ei gael ar lendid strydoedd a dangosyddion perfformiad eraill.  Cyfeiriodd at y Polisi Gorfodi Amgylcheddol a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2013 a nododd ei ymagwedd tuag at bob agwedd ar
orfodi amgylcheddol.  Adroddodd y Prif Swyddog ar y prif ystyriaethau, fel y nodir yn yr adroddiad yn ymwneud â throseddau gollwng ysbwriel, baw cŵn, gwastraff ychwanegol, tipio anghyfreithlon ar dir preifat, a cheir wedi eu gadael.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Mark Mountford, Rheolwr Busnes Rhanbarthol, ac Eoin Henney, Rheolwr Busnes, Kingdom Securities Limited, a rhoddodd wahoddiad iddynt roi cyflwyniad ar y gweithgareddau gorfodi amgylcheddol a wnaed ar ran y Cyngor.  Roedd y cyflwyniad yn trafod y prif bwyntiau a ganlyn:

- strategaeth batrolau
- cyfanswm yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a gyflwynwyd
- troseddau 2016-17 a 2017-18
- cymhareb dynion / merched a bandio oed 2016-18
- Canrannau ethnigrwydd 2016-18
- Lleoliadau Hysbysiadau Cosb Benodedig
- Newid ymddygiad

Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r trefniant presennol gyda Kingdom Securities Limited yn dod i ben a adroddodd ar y dewisiadau, fel y nodwyd yn yr adroddiad, a oedd ar gael ar gyfer gorfodi amgylcheddol ar lefel isel o fewn y Sir i'w hargymell i'r Cabinet.

Diolchodd y Cadeirydd i Mark Mountford ac Eion Henney am eu cyflwyniad a gwahoddodd Aelodau i ofyn cwestiynau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Evans at nifer yr Hysbysiadau Cosb Penodol a roddwyd am sigaréts o'i gymharu â'r nifer a roddwyd am droseddau eraill, a nododd faw cŵn fel enghraifft. Mynegodd bryderon fod rhai ardaloedd yn cael eu targedu'n benodol i ddal pobl a oedd yn ysmygu sigaréts. Gan gyfeirio at y dewisiadau sydd ar gael ar gyfer model gweithredu i'r dyfodol, mynegodd y Cynghorydd Evans ffafriaeth i ymestyn darpariaeth fewnol y Cyngor drwy recriwtio i ddarparu'r un lefel o gwmpas ag y darparwyd gan Kingdom Securities Limited.

Gwnaeth y Cynghorydd Bernie Attridge sylw ar gost ac effaith weledol ysbwriel ar yr amgylchedd a dywedodd fod Kingdom Securities Limited wedi eu cyflwyno yn 2016 i gefnogi gorfodi troseddau amgylcheddol a'r tîm gorfodi mewnol. Cyfeiriodd at y gwelliannau a gyflawnwyd mewn canol trefi o safbwynt glendid strydoedd a oedd yn cefnogi effaith dull goddef dim a phresenoldeb parhaus swyddogion gorfodi. Dywedodd hefyd fod gwelliant wedi bod yn safle Sir y Fflint ar dabl sgoriau Cadwch Gymru'n Daclus. Cyfeiriodd y Cynghorydd Attridge at y nifer fechan o gwynion a dderbyniwyd o'u cymharu â nifer yr hysbysiadau cosb benodol a roddwyd a rhoddodd sicrwydd yr ymchwiliwyd i bob cwyn ac os byddent yn dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o gam-arfer, byddent yn ymdrin â hynny'n gadarn. Ychwanegodd y Cynghorydd Attridge fod Sir y Fflint wedi mabwysiadu proses apeliadau annibynnol fel y gofynnwyd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd lle'r oedd apeliadau'n cael eu hystyried gan y Prif Swyddog, Llywodraethu.

Holodd y Cynghorydd Haydn Bateman a oedd gweithwyr Kingdom Securities Limited yn derbyn bonws am nifer yr hysbysiadau a roddwyd. Eglurodd Mark Mountford fod gweithwyr yn derbyn trefniadau taliadau cymell perfformiad ond nid oeddynt yn derbyn bonws yn ymwneud â nifer yr hysbysiadau a roddwyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Joe Johnson at y sylwadau negyddol a oedd wedi eu rhoi ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch yr ymagwedd a gymerwyd gan swyddogion patrolio. Ategodd y pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd David Evans ynghylch nifer yr hysbysiadau a roddwyd ar gyfer sigaréts o'u cymharu â'r rhai a roddwyd am faw cŵn a dywedodd fod problem baw cŵn yn un o brif bryderon trigolion Sir y Fflint. Ychwanegodd y byddai'n cefnogi dull mwy trugarog, a fyddai'n canolbwyntio ar addysg tuag at orfodaeth wedi ei ddarparu'n fewnol.

Mynegodd y Cynghorydd Chris Dolphin y farn, boed y gwasanaeth gorfodi yn cael ei gynnig yn breifat neu gan y Cyngor, y dylai'r Cyngor gymryd agwedd gadarn tuag at ollwng sbwriel, baw cŵn ac ati. Ychwanegodd fod gwahaniaeth nodedig wedi ei weld mewn rhai ardaloedd ers i swyddogion Kingdom fod yn cynnal patrolau yn yr ardaloedd hynny. Holodd faint o staff oedd wedi eu cyflogi gan Kingdom Securities Limited i gynnal gorfodaeth amgylcheddol ar ran y Cyngor ac a oedd y Cyngor yn darparu iwnifformau a cherbydau gorfodi i'r swyddogion patrolio eu defnyddio. Holodd hefyd sawl hysbysiad cosb benodedig a ddiddymwyd yn dilyn apêl.

Dywedodd y Prif Swyddog fod Cyngor Sir y Fflint yn cyflenwi iwnifformau a defnydd o gerbydau fflyd ac roedd Swyddogion Kingdom yn rhannu swyddfeydd gyda staff Cyngor Sir y Fflint yn nepo Alltami. Ychwanegodd fod y cydlynwyr

ardal yn gyswllt gyda Kingdom a fod yr holl lwybrau yn cael eu cynllunio a'u holrhain.

Mynegodd Aelodau bryderon ynghylch y nifer isel o hysbysiadau a roddwyd am faw cŵn yn Sir y Fflint yn 2017/18 ac amlygwyd ardaloedd lle'r oedd tystiolaeth o droseddu cyson. Ategodd Aelodau fod problem baw cŵn yn un o brif bryderon y Cyngor. Anogodd y Cynghorydd Carolyn Thomas Aelodau i roi gwybod am unrhyw achosion o faw cŵn neu ollwng sbwriel yn eu Wardiau i Strydwedd a fyddai'n cymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r broblem. Holodd y Cynghorwyr Glyn Banks a Veronica Gay a oedd swyddogion patrôl yn mynd at bobl a oedd yn cerdded eu cŵn i holi a oeddynt yn cario bagiau i waredu gwastraff cŵn yn briodol.

Dywedodd Mark Mountford fod baw cŵn yn flaenoriaeth fawr, serch hynny gallai fod yn anodd bod yn dyst i drosedd. Ychwanegodd y gall tystion fod yn gyndyn i gymryd rhan a chynnig gwybodaeth. Yn ogystal, byddai'n rhaid i dystiolaeth ar gamera fod yn ystod golau dydd i fod yn effeithiol.

Yn ystod y drafodaeth, cododd Aelodau gwestiynau ar nifer y swyddi gwag o fewn y tîm gorfodi amgylcheddol a gyflogwyd gan Kingdom Securities Limited a holodd pryd y cafodd y swyddi gwag eu hysbysebu.

Mewn ymateb i'r sylwadau pellach a'r pryderon a fynegwyd gan Aelodau, eglurodd y Cynghorydd Bernie Attridge fod gorfodaeth amgylcheddol yn cael ei arwain gan gudd-wybodaeth. Cyfeiriodd y Prif Swyddog hefyd at yr ymgysylltiad a oedd yn digwydd gyda'r cyhoedd a chyfeiriodd at yr wybodaeth addysgol a ddarparwyd gan y Cyngor i ddod a dull cadarnhaol o orfodaeth amgylcheddol mewn cymunedau lleol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Haydn Bateman at yr agwedd goddef dim a gymerwyd tuag at droseddau a gyflawnwyd am ollwng sbwriel a holodd, pe bai tystiolaeth fod 'trosedd ddamweiniol' wedi ei chyflawni gan aelod o'r cyhoedd, a fyddai'r amgylchiadau yn ymwneud â'r drosedd honno yn cael eu hystyried. Ail-bwysleisiodd y Prif Swyddog yr ymchwiliwyd i bob cwyn ac eglurodd fod swyddogion patrôl yn gwisgo camerâu corff i gofnodi'r sgwrs a gweithredoedd unigolion a daethpwyd i gysylltiad â nhw.

Dywedodd y Prif Swyddog fod modd rhoi manylion penodol hysbysiadau cosb penodedig a roddwyd mewn ardaloedd penodol, manylion penodol galwadau i Strydwedd fesul ward a nifer y cwynion a'r apeliadau a dderbyniwyd. Cytunodd hefyd y byddai'n darparu manylion am y cyhoeddusrwydd a'r gwaith addysgol a wnaed i sicrhau fod y cyhoedd yn ymwybodol fod y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion cŵn gael modd gyda nhw o gasglu gwastraff cŵn o'r ddaear os oedd swyddog awdurdodedig yn gofyn iddynt wneud.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Glyn Banks at y 15% o incwm a dderbyniwyd gan yr Awdurdod o'r hysbysiadau cosb penodedig a roddwyd gan Kingdom Securities Limited a holodd a oedd hyn yn ddigonol i dalu cost y gweithredoedd gorfodi. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod yr arian a gafwyd ar hyn o bryd gan Kingdom Securities Limited yn mwy na thalu am y costau a oedd ynghlwm.

Cynigiodd y Cynghorydd David Evans y dylid argymell dewis 3, i ymestyn y ddarpariaeth fewnol, drwy recriwtio neu waith rhanbarthol i ddarparu'r un lefel o gwmpas gorfodi a'r contractwr presennol heb gynnal dull o oddef dim, i'r Cabinet i'w ystyried, a chytunwyd ar hyn pan gynhaliwyd y bleidlais.

Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd Swyddogion i'r cwestiynau a'r pryderon pellach a godwyd gan Aelodau ynghylch gwastraff ychwanegol, tipio anghyfreithlon, gosod posteri'n anghyfreithlon, graffiti, a throliau wedi eu gadael.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r adroddiad; a

(b) Dylid argymell dewis 3, i ymestyn y ddarpariaeth fewnol, drwy recriwtio neu waith rhanbarthol i ddarparu'r un lefel o gwmpas gorfodi a'r contractwr presennol heb gynnal dull o oddef dim, i'r Cabinet i'w ystyried, a chytunwyd ar hyn pan gynhaliwyd y bleidlais.

## 6. TRWSIO TYLLAU FFORDD A PHARATOI'R RHAGLEN BLYNYDDOL O AIL-WYNEBU FFYRDD

Cyflwynodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd adroddiad i amlinellu'r dull tuag o nodi diffygion a rhoi manylion ar wariant cyfalaf a lefelau buddsoddiad ynghylch y Rhwydwaith priffyrdd, cost a budd trwsio tyllau yn y ffordd dros dro a'r rhesymeg tu ôl i'r angen am waith trwsio dro ar ôl tro ar wynebau rhai ffyrdd oherwydd fod yr un tyllau yn ailymddangos yn y ffyrdd. Dywedodd fod yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion y rhaglenni arfaethedig o ailosod wynebau ffyrdd ar gyfer 2018/19.

Rhoddodd y Rheolwr Rhwydwaith Ffordd wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif ystyriaethau, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at lefel y buddsoddiad cyfalaf oedd ei angen i gynnal cyflwr y ffyrdd yn eu stad bresennol. Cyfeiriodd at ddyraniad yr Awdurdod o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau cynnal ffyrdd, ynghyd â dyraniad cyfalaf y Cyngor a oedd angen ei ddyrannu'n ofalus i ddod â'r budd mwyaf posibl. Dywedodd fod pob ffordd wedi eu harolygu i ddatblygu rhaglenni ailosod wyneb, a ddangoswyd yn yr atodiad i'r adroddiad.

Holodd y Cynghorydd Vicky Perfect pam mai dim ond dau safle parcio ar gyfer ceir electronig oedd yna yn y Sir. Dywedodd y Prif Swyddog fod strategaeth yn cael ei datblygu a chytunwyd y byddai eitem ar y testun hwn yn cael ei gynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w ystyried yn y dyfodol gan y Pwyllgor.

Diolchodd Aelodau i'r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) a'i dîm am gynnal y rhwydwaith briffyrdd yn ystod cyfnodau o dywydd gaeafol difrifol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 7. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYNGOR 2017/18 Y CYNGOR AR DDIWEDD Y FLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) Adroddiad Monitro Diwedd Blwyddyn Cynllun y Cyngor 2017/18. Eglurodd fod yr adroddiad yn cyflwyno'r drefn o fonitro cynnydd ar flaenoriaeth 'Cyngor Gwyrdd' Cynllun y Cyngor a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

Darparodd wybodaeth gefndirol a dywedodd bod yr adroddiad monitro ar gyfer Cynllun y Cyngor 2017/18 yn adroddiad cadarnhaol gydag 83% o'r gweithgareddau yn gwneud cynnydd da yn ôl yr asesiad, a 74% yn debygol o gyflawni'r canlyniad a ddymunwyd. Roedd y dangosyddion perfformiad yn dangos cynnydd da gydag 56% yn cyflawni neu bron a chyflawni targed y cyfnod. Roedd y risgiau hefyd yn cael eu rheoli'n llwyddiannus gyda'r mwyafrif yn cael eu hasesu'n risgiau cymedrol (63%), mân risgiau (8%) neu'n risgiau ansylweddol (6%).

Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yna ddangosyddion perfformiad yn dangos statws coch ar gyfer perfformiad presennol yn erbyn targed ar gyfer y Pwyllgor. Adroddodd ar y risgiau mawr canlynol a oedd wedi eu nodi ac eglurodd fod y cynnydd yn erbyn y risgiau yng Nghynllun y Cyngor wedi eu cynnwys yn yr atodiad i'r adroddiad.

Blaenoriaeth Cyngor Gwyrdd
Risg: Ni fydd cyllid yn cael ei ddiogelu ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd â blaenoriaeth
Risg: Tywydd garw ar y rhwydwaith priffyrdd.

Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd y Prif Swyddog i'r cwestiynau a godwyd yn ymwneud â chludiant i'r ysgol, ailgylchu gwastraff cyffredinol, a llifogydd lleol yn sgil datblygu cynyddol ar dir at ddibenion preswyl.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 8. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried. Nododd fod cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor wedi ei gytuno ac y byddai'n cael ei gynnal ar 12 Gorffennaf.

Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Vicky Perfect, cytunwyd y byddai eitem ychwanegol yn cael ei chynnwys ar y Rhaglen i ystyried y pwyntiau gwefru mewn mannau o ddiddordeb ar gyfer ceir electronig.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei newid; a

(b) Bod yr Hwylusydd, gan ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd fel bo'r angen.

## 9. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg a saith aelod o'r cyhoedd yn bresennol

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.55 pm)

..................................................

**Cadeirydd**